OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 873

## Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006

## RHAN 4

Staffio ysgolion newydd

**Dehongli'r darpariaethau sy'n cael eu cymhwyso gan Ran 4**

**35.** Mae unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn neu yn Atodlen 2 i Ddeddf 2002 sy'n gymwys mewn perthynas ag ysgol arfaethedig o ganlyniad i'r Rhan hon mewn grym at y diben hwnnw fel pe bai—

(a) unrhyw gyfeiriad at "corff llywodraethu" ("*governing body*") yn gyfeiriad at gorff llywodraethu dros dro, a

(b) unrhyw gyfeiriad at "llywodraethwr" ("*governor*") yn gyfeiriad at lywodraethwr dros dro.

**Staffio ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir arfaethedig sydd â chyllidebau dirprwyedig**

**36.** Os oes gan ysgol arfaethedig a fydd yn ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir gyllideb ddirprwyedig(**1**), mae rheoliadau 4 i 7 a 10 i 19 yn gymwys.

**Staffio ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion arbennig sefydledig arfaethedig sydd â chyllidebau dirprwyedig**

**37.** Os oes gan ysgol arfaethedig a fydd yn ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol arbennig sefydledig gyllideb ddirprwyedig, mae rheoliadau 4 i 7 ac 21 i 34 yn gymwys.

**Staffio ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir arfaethedig sydd heb gyllidebau dirprwyedig**

**38.** Os nad oes gan ysgol arfaethedig a fydd yn ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir gyllideb ddirprwyedig, mae Rhan 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2002 yn gymwys.

**Staffio ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion arbennig sefydledig arfaethedig sydd heb gyllidebau dirprwyedig**

**39.** Os nad oes gan ysgol arfaethedig a fydd yn ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol arbennig sefydledig gyllideb ddirprwyedig, mae Rhan 2 o Atodlen 2 i Ddeddf 2002 yn gymwys.

(**1**) *Gweler* adran 49(2) a (3) o Ddeddf 1998 o ran a oes gan ysgol gyllideb ddirprwyedig neu beidio. Mae ysgol sydd â chyllideb ddirprwyedig wedi'i diffinio gan adran 39(2) o Ddeddf 2002.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*